Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Cyfarfod Fforwm Iwerddon-Cymru: 22 Hydref 2021

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o Fforwm Iwerddon-Cymru yng Nghaerdydd ar 22 Hydref 2021.


Cyhoeddwyd gyntaf: 22 Hydref 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 22 Hydref 2021


Cynrychiolwyd Llywodraeth Iwerddon gan y Gweinidog dros Faterion Tramor a'r Gweinidog Amddiffyn, Simon Coveney T.D., y Gweinidog dros yr Amgylchedd, yr Hinsawdd a Chyfathrebu a'r Gweinidog dros Drafnidiaeth, Eamon Ryan T. D., a ymunodd â'r digwyddiad yn rhithiol, a'r Gweinidog Gwladol dros Hyrwyddo Masnach, Rheoleiddio Digidol a Chwmnïau, Robert Troy T.D.

Cynhaliodd Prif Weinidog Cymru Fforwm cyntaf Iwerddon Cymru yng Nghaerdydd, gyda Vaughan Gething A.S., y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths A.S., a'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, Lee Waters A.S.

Cyhoeddwyd ymrwymiad i derfnu Fforwm Iwerddon-Cymru yn flynyddol yn Natganiad a Rennir Iwerddon Cymru a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021-25 a lansiwyd ar 1 Mawrth eleni, i ymgysylltu â rhanddeiliaid gwleidyddol,


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-fforwm-iwerddon-Cymru-22-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

economaidd ac ehangach i ddatblygu cysylltiadau, cyfnewid safbwyntiau polisi, rhannu dysgu a meithrin cydweithrediad mewn meysydd y mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb datganoledig drostynt, i gryfhau'r berthynas ddwyochrog ehangach rhwng Iwerddon a Chymru.

Trafododd y Fforwm y canlynol:

## Datblygiadau gwleidyddol diweddar a chysylltiadau dwyochrog

Trafododd y Gweinidog dros Faterion Tramor a'r Prif Weinidog y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf ledled Iwerddon a Chymru, ac yn fwy cyffredinol, gan gynnwys Covid-19, datblygiadau'r UE-DU, deiliadaeth Iwerddon ar y Cyngor Diogelwch a Chynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP26) sydd ar y gweill. Trafodwyd hefyd eu huchelgeisiau cyffredin ar gyfer perthynas ddwyochrog Iwerddon Cymru, yng nghyd-destun gweithredu Datganiad a Rennir Iwerddon a Cymru a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021-25, a lansiwyd yn gynharach yn y flwyddyn, yn ogystal ag agoriad swyddogol Swyddfa Prif Gonswl Iwerddon yng Nghaerdydd. Cafwyd cynnydd cadarnhaol hyd yma, gan gynnwys secondiad swyddog o Lywodraeth Cymru i'r Adran Materion Tramor a oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â diaspora, ehangder y prosiectau diwylliannol sydd ar y gweill, a'r cydweithrediad arfaethedig rhwng Amgueddfeydd Cenedlaethol Iwerddon a Chymru ar fioamrywiaeth a chynhwysiant.

## Cydweithrediad masnach a datblygu economaidd

Trafododd y Gweinidog Gething a'r Gweinidog Troy ddatblygiadau economaidd diweddar yng Nghymru ac Iwerddon, yn ogystal â chyfleoedd a heriau cyfredol ar gyfer cydweithredu economaidd. Ymunodd y Gweinidog Griffiths â hwy i drafod cyfleoedd pellach mewn perthynas â choridor masnach Iwerddon-Gogledd Cymru, a'r cysylltiadau rhwng Gogledd Cymru a Phwerdy'r Gogledd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-fforwm-iwerddon-Cymru-22-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Nododd y ddwy ochr y byddent, o ganlyniad, yn hoffi gweld fframwaith yn cael ei roi ar waith i hwyluso deialog barhaus rhwng yr unigolion allweddol yn y maes hwn ac i gefnogi rhwydweithiau cydweithredol.

## Newid hinsawdd a'r polisi ynni

Trafododd y Gweinidog Waters a'r Gweinidog Ryan flaenoriaethau Cymru ac Iwerddon ym maes polisïau newid hinsawdd ac ynni, gan gynnwys mewn perthynas â gwynt ar y môr, prosiectau cymunedol adnewyddadwy a chydgysylltu. Tynnodd y ddwy ochr sylw at bwysigrwydd ynni adnewyddadwy a gwerth trafodaethau archwiliadol ar gyfleoedd posibl i gydweithredu. Ymunodd cynrychiolwyr Wind Energy Iwerddon a Chynghrair Datblygwyr y Môr Celtaidd â'r Gweinidogion hefyd.

## Cyfarfodydd yn y dyfodol

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf o Fforwm Iwerddon Cymru yn cael ei gynnal yn Iwerddon ddiwedd 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-fforwm-iwerddon-Cymru-22-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cyfarfod Fforwm Iwerddon-Cymru: 22 Hydref 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-fforwm-iwerddon-Cymru-22-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-fforwm-iwerddon-Cymru-22-hydref-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.